Methodoleg a chanlyniadau'r arolwg staff

# CEF Brynbuga a CEF Prescoed

Mai 2025

# Cynnwys

Methodoleg yr arolwg staff ........................................................................ 3

Arolwg staff........................................................................................... 4

# Methodoleg yr arolwg staff

Cynhelir arolwg staff ar ddechrau pob arolygiad, ac mae'r canlyniadau'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad.

Datblygodd ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF holiadur ar-lein a oedd yn cynnwys cwestiynau strwythuredig yn archwilio profiad staff yn y sefydliad. Mae pedwar cwestiwn agored hefyd, sy'n rhoi cyfle i'r staff ddisgrifio eu profiadau a sôn wrth arolygwyr am unrhyw beth arall sy'n bwysig yn eu barn nhw. Nid yw'r sylwadau hyn yn cael eu cyhoeddi na'u rhannu â'r sefydliad.

### Dosbarthu

Mae ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF yn darparu dolen i'r arolwg, sydd wedi'i chynnwys mewn e-bost eglurhaol. Mae'r e-bost eglurhaol yn esbonio pwrpas yr arolwg, nad oes rhaid cymryd rhan ynddo, ac yn rhoi sicrwydd ynghylch cyfrinachedd ac aros yn ddienw, gan alluogi staff i gydsynio ar sail gwybodaeth i gymryd rhan. Anfonir yr e-bost hwn at y sefydliad, gyda chais iddo gael ei anfon ymlaen at yr holl staff sy'n gweithio yn y sefydliad; mae ymchwilydd Arolygiaeth Carchardai EF yn cael copi o'r e-bost hwn er mwyn cynnig sicrwydd. Yn ogystal, mae ymchwilwyr yn dosbarthu cardiau post i swyddfeydd adeiniau at sylw staff am fanylion yr arolwg ar-lein, sy'n cynnwys y ddolen.

### Ymatebion i'r arolwg

Anfonwyd yr arolwg i 430 o gyfeiriadau e-bost yn CEF Brynbuga a CEF Prescoed. Rhoddwyd chwe diwrnod i'r staff lenwi'r arolwg. Cafodd cyfanswm o 86 o holiaduron eu llenwi.

Ni allwn fod yn sicr bod pob aelod o staff sy'n gweithio yn y sefydliad wedi derbyn yr e-bost. Hefyd, oherwydd bod yr arolwg ar-lein wedi'i greu mewn ffordd sy'n ei gwneud yn bosibl i anfon llawer o ymatebion o un ddyfais (er mwyn ei gwneud hi'n haws i'r rheini sy'n rhannu cyfrifiaduron gymryd rhan yn yr arolwg), mae'n bosibl bod unigolion wedi llenwi'r holiadur fwy nag unwaith. Felly, nid yw'n bosibl rhoi cyfradd ymateb gywir.

### Canlyniadau llawn yr arolwg

Mae canlyniadau llawn yr arolwg ar gyfer staff CEF Brynbuga a CEF Prescoed yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebion ar gyfer dim ond y cwestiynau sydd wedi'u strwythuro. Mae'r canrannau wedi cael eu talgrynnu, ac felly mae'n bosibl na fyddan nhw'n dod i 100%.

Mae adroddiad llawn yr arolygiad ar gael ar ein gwefan yn:
https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/

# Yr arolwg staff

**C1 Ticiwch yr opsiwn sy'n rhoi'r disgrifiad gorau o'ch rôl chi:**

| | |
|---|---|
| Staff gweithredol rheng flaen | 23 (27%) |
| Rheolwr gweithredol | 12 (14%) |
| Staff gofal iechyd | 0 (0%) |
| Staff addysg, sgiliau a gwaith | 16 (19%) |
| Staff gweinyddol | 20 (23%) |
| Staff eraill | 15 (17%) |

**Lles y staff**

**C2 Pa mor dda mae'r sefydliad yn cefnogi lles staff?**

| | |
|---|---|
| Da iawn | 32 (37%) |
| Eithaf da | 28 (33%) |
| Ddim yn dda nac yn wael | 11 (13%) |
| Eithaf gwael | 10 (12%) |
| Gwael iawn | 5 (6%) |

**C3 Sut byddech chi'n disgrifio eich morâl yn y gwaith:**

| | |
|---|---|
| Uchel iawn | 15 (17%) |
| Uchel | 34 (40%) |
| Ddim yn uchel nac yn isel | 23 (27%) |
| Isel | 9 (10%) |
| Isel iawn | 5 (6%) |

**Lles carcharorion**

**C4 Dywedwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno i raddau | Anghytuno i raddau | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae camau rhesymol yn cael eu cymryd er mwyn cadw carcharorion yn ddiogel | 53 (62%) | 23 (27%) | 0 (0%) | 6 (7%) | 4 (5%) |
| Mae carcharorion yn cael digon o amser allan o'u celloedd | 72 (84%) | 5 (6%) | 0 (0%) | 5 (6%) | 4 (5%) |

**Arweinyddiaeth yn y sefydliad hwn**

**C5 Pa mor glir mae prif flaenoriaethau'r sefydliad hwn yn cael eu cyfleu i chi?**

| | |
|---|---|
| Yn glir iawn | 30 (35%) |
| Yn eithaf clir | 35 (41%) |
| Ddim yn glir iawn | 11 (13%) |
| Ddim yn glir o gwbl | 2 (2%) |
| Dydw i ddim yn gwybod beth yw'r prif flaenoriaethau | 8 (9%) |

**C5a I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â blaenoriaethau'r sefydliad hwn?**

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf | 33 (42%) |
| Cytuno i raddau | 37 (47%) |
| Anghytuno i raddau | 2 (3%) |
| Anghytuno'n gryf | 1 (1%) |
| Ddim yn gwybod | 5 (6%) |

**C6 Nodwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod eich gwybodaeth a'ch sgiliau yn ddigonol i wneud eich gwaith yn dda** *(e.e. cyfleoedd hyfforddi a datblygu):*

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf | 50 (58%) |
| Cytuno i raddau | 30 (35%) |
| Anghytuno i raddau | 5 (6%) |
| Anghytuno'n gryf | 1 (1%) |

**C7 Pa mor aml ydych chi'n cwrdd â rhywun (rheolwr neu fentor) i drafod sut rydych chi'n dod yn eich blaen yn eich rôl?**

| | |
|---|---|
| Tua unwaith y mis | 34 (40%) |
| Tua unwaith bob tri mis | 25 (29%) |
| Tua dwywaith y flwyddyn | 10 (12%) |
| Unwaith y flwyddyn neu lai | 11 (13%) |
| Dydw i ddim wedi cael y cyfle i gwrdd â rhywun | 6 (7%) |

**C8 Rhowch sgôr i ansawdd y gefnogaeth rydych chi'n ei chael gan eich rheolwr llinell:**

| | |
|---|---|
| Da iawn | 47 (55%) |
| Da | 23 (27%) |
| Ddim yn dda nac yn wael | 8 (9%) |
| Gwael | 4 (5%) |
| Gwael iawn | 4 (5%) |

**C9 Defnyddiwch y raddfa i roi sgôr i'r datganiadau canlynol:**

| | Bob amser | Yn aml | O bryd i'w gilydd | Byth | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae llywodraethwyr/cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr y sefydliad hwn yn agos-atoch (e.e. maent yn cymryd amser i wrando) | 40 (47%) | 21 (24%) | 17 (20%) | 6 (7%) | 2 (2%) |
| Mae llywodraethwyr/cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr y sefydliad hwn yn cydnabod ac yn dathlu gwaith da | 26 (30%) | 27 (31%) | 22 (26%) | 8 (9%) | 3 (3%) |
| Mae llywodraethwyr/cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr yn gosod safonau ymddygiad uchel ar gyfer staff | 30 (36%) | 27 (32%) | 18 (21%) | 7 (8%) | 2 (2%) |
| Mae llywodraethwyr/cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr yn herio ymddygiad gwael gan staff | 22 (26%) | 19 (23%) | 26 (31%) | 11 (13%) | 6 (7%) |
| Mae llywodraethwyr/cyfarwyddwyr yn annog staff i fyfyrio ar eu camgymeriadau a dysgu ohonynt | 18 (21%) | 21 (25%) | 22 (26%) | 10 (12%) | 14 (16%) |
| Mae llywodraethwyr/cyfarwyddwyr yn defnyddio adborth gan garcharorion, staff ac eraill i gynhyrchu syniadau, creu cynlluniau a mesur cynnydd | 15 (18%) | 24 (28%) | 20 (24%) | 9 (11%) | 17 (20%) |

## Codi pryderon

**C10 Ydych chi'n gwybod beth yw'r drefn ffurfiol ar gyfer codi pryderon (chwythu'r chwiban) yn y sefydliad hwn?**

Ydw ........ 73 (85%)
Nac ydw ........ 13 (15%)

**C11 Ydych chi wedi codi pryderon am y sefydliad hwn yn ffurfiol?**

Ydw ........ 6 (7%)
Nac ydw ........ 80 (93%)

**C12 Fyddech chi'n codi pryderon yn ffurfiol pe bai gennych chi bryderon?**

| | |
|---|---|
| Byddwn | 63 (80%) |
| Na fyddwn | 5 (6%) |
| Ddim yn gwybod | 11 (14%) |

**C14 I bwy neu i ba sefydliad wnaethoch chi fynegi eich pryder?** *(Dewiswch fwy nag un os yw'n berthnasol)*

| | |
|---|---|
| Cydweithiwr | 0 |
| Rheolwr | 5 |
| Adnoddau dynol | 0 |
| Ofsted neu Estyn | 0 |
| Y Comisiwn Ansawdd Gofal neu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | 0 |
| Arolygiaeth Carchardai EF | 0 |
| Undeb Llafur | 3 |
| Sefydliad proffesiynol | 0 |
| Yr Heddlu | 0 |
| Arall | 0 |

**C15 A gafodd eich pryderon eu cymryd o ddifrif?**

| | |
|---|---|
| Do | 1 (17%) |
| Naddo | 3 (50%) |
| Ddim yn gwybod | 2 (33%) |

**C16 A gymerwyd unrhyw gamau effeithiol mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gennych?**

| | |
|---|---|
| Do | 1 (17%) |
| Naddo | 4 (67%) |
| Ddim yn gwybod | 1 (17%) |

**C18 Ydych chi erioed wedi gweld staff yn ymddwyn yn amhriodol tuag at garcharorion yn y sefydliad hwn?**

| | |
|---|---|
| Do | 13 (15%) |
| Naddo | 70 (82%) |
| Ddim yn gwybod | 2 (2%) |

**C19 Ydych chi erioed wedi gweld staff yn ymddwyn yn amhriodol tuag at ei gilydd yn y sefydliad hwn?**

| | |
|---|---|
| Do | 27 (32%) |
| Naddo | 54 (64%) |
| Ddim yn gwybod | 4 (5%) |